PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 19 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lay, Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Murphy a/ac Sattar |

19 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

20 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

21 : DATGANIADAU O FUDDIANT

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Hudson | 18/01545/MJR | Buddiant gwaith gyda Threfnydd Angladdau |
| Jacobson | 18/01545/MJR | Mynegodd farn ar Gyfryngau Cymdeithasol |

22 : DEISEBAU

Cais rhif 18/01545/MJR, Tir ar Ochr Ddwyreiniol Thornhill Road a Gogledd yr M4, Llys-faen.

Siaradodd y Deisebwr ac ymatebodd yr Ymgeisydd.

23 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:
PENDERFYNWYD: Yn unol â phwerau dirprwyedig y Pwyllgor hwn, penderfynwyd ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â'r argymhellion fel y'u nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach a nodir isod a rhoddir gwybod am y penderfyniad yn unol ag adran 74 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig a Chadwraeth 1990)

# CEISIADAU A GANIATEIR

18/01545/MJR – LLYS-FAEN

18/01545/MJR, TIR AR OCHR DDWYREINIOL THORNHILL ROAD A GOGLEDD YR M4, LLYS-FAEN, CAERDYDD
Newid defnydd o dir amaethyddol i safle claddu gydag adeiladau cysylltiedig, seilwaith a gwaith peirianyddol, gan gynnwys mynediad newydd ac wedi'i newid i gerbydau i/o Thornhill Road, darparu ffyrdd, llwybrau troed, maes parcio, bloc toiledau, llwybrau cyhoeddus, maes parcio, bloc toiledau, llochesau cyhoeddus, mannau claddu, gwaith tirlunio (gan gynnwys SDCau) ac ailraddio lefelau'r safle.

18/01563/MJR – CATHAYS

24 LLETY MYFYRWYR LÔN-Y-PARC, LÔN-Y-PARC, PARC CATHAYS
Newid defnydd o 34 fflat myfyrwyr (Sui Generis) i 34 ystafell Apart-Hotel (Dosbarth C1)

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

18/00576/MNR –LLANDAF

TÎM TROSEDDAU IEUENCTID – THE RISE, PEN-HILL ROAD, PONTCANNA
Codi 8 tŷ tref 4 ystafell gwely gyda garejys a pharcio cysylltiedig.

RHESWM: Er mwyn cynnal ymweliad safle â'r lleoliad hwn.

18/01114/MNR – PONTPRENNAU/PENTREF LLANEIRWG

BRO DAWEL, DRUIDSTONE ROAD, PENTREF LLANEIRWG
Dymchwel y garej sydd ynghlwm eisoes i Fro Dawel a chodi garej ddwbl newydd ar gyfer Bro Dawel. Adeiladu annedd newydd ar wahân.
RHESWM: Er mwyn cynnal ymweliad safle â'r lleoliad hwn.

24 : CEISIADAU A BENNIR GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd

25 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm